## ATODLEN 2

## TRAFODIADAU CYN-GWBLHAU

### RHAN 3

### TRAFODIADAU CYN-GWBLHAU SY'N DROSGLWYDDIADAU ANNIBYNNOL

*Trosglwyddiadau annibynnol: cydnabyddiaeth a chyflawni'n sylweddol*

13 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r trosglwyddiad cyn-gwblhau yn drosglwyddiad annibynnol.

(2) Os yw'r trosglwyddai yn caffael testun y trosglwyddiad annibynnol, ystyrir bod y gydnabyddiaeth ar gyfer y trafodiad sy'n rhoi effaith i'r caffaeliad hwnnw yn cynnwys y gydnabyddiaeth a roddir ar gyfer y trosglwyddiad annibynnol (oni fyddai'n ei gynnwys fel arall).

(3) Mae cyfeiriadau yn is-baragraff (2) at gaffaeliad yn cynnwys caffaeliad a gaiff ei drin fel pe bai wedi digwydd yn rhinwedd adran 10(4) (ac mae'r cyfeiriad at y trafodiad sy'n rhoi effaith i'r caffaeliad hwnnw i'w ddarllen yn unol â hynny).

(4) Mae cam a gymerir gan y trosglwyddai (neu aseinai'r trosglwyddai) a fyddai, pe bai'r prynwr gwreiddiol yn cymryd y cam hwnnw, yn golygu (at ddibenion adran 14(1)) cymryd meddiant o holl destun y contract gwreiddiol neu'r holl destun i raddau helaeth, i'w drin fel cyflawni'r contract gwreiddiol yn sylweddol.

(5) Os yw trafodiad sy'n drosglwyddiad annibynnol mewn perthynas â chontract hefyd yn drosglwyddiad annibynnol mewn perthynas â chontract arall (pan fu trosglwyddiadau annibynnol olynol, yn benodol), ystyrir mai pob un o'r contractau hynny yw'r "contract gwreiddiol" at ddibenion cymhwyso is-baragraff (4) mewn achosion ar wahân.

(6) Yn is-baragraff (4)—

(a) mae'r cyfeiriad at y trosglwyddai yn cynnwys person sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddai, a

(b) mae'r cyfeiriad at aseinai'r trosglwyddai—

(i) yn gyfeiriad at berson sydd, o ganlyniad i drafodiad sy'n aseinio hawliau mewn perthynas â'r trosglwyddiad annibynnol, â'r hawl i alw am drosglwyddo holl destun y trosglwyddiad annibynnol neu ran ohono, a

(ii) yn cynnwys person sy'n gysylltiedig â pherson o'r fath.